# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Mai 2019

Amser: 09.40

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.40-09.45)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y rheilffyrdd yn yr hydref

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-13-19(P1) Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y rheilffyrdd yn yr hydref

**2.2 Ymateb Trafnidiaeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y rheilffyrdd yn yr hydref**

(Tudalennau 3 - 7)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-13-19(P2) Ymateb Trafnidiaeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y rheilffyrdd yn yr hydref

## 3 Craffu Gweinidogol - Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

(09:45-10.45) (Tudalennau 8 - 30)

Kirsty Williams AC, Y Gweinidog Addysg

Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr, Addysg Bellach a Phrentisiaethau

Huw Morris, Cyfarwyddwr Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

Rachel Garside-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, Sgiliau a Cyflogadwyedd

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-13-19(P3) Papur Briffio'r Gwasanaeth Ymchwil

EIS(5)-13-19(P4) Tystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 5

## 5 Ôl-drafodaeth breifat

(10.45-11.00)

## Egwyl

(11.00-11.15)

## 6 Craffu Gweinidogol - Gwefru Cerbydau Trydan yng Nghymru

(11.15-12.15) (Tudalennau 31 - 52)

Ken Skates AC, Gweindog yr Economi a Thrafnidiaeth

Simon Jones, Cyfarwyddwr Economi ac Isadeiledd

Dewi Rowlands, Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Polisi Trafnidiaeth

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-13-19(P5) Papur Briffio'r Gwasanaeth Ymchwil

EIS(5)-13-19(P6) Tystiolaeth gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 8

## 8 Ôl-drafodaeth breifat

(12.15-12.30)

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Problemau ar y Rheilffyrdd yn yr Hydref**

---

Mae Trafnidiaeth Cymru yn is-gwmni o dan berchnogaeth lawn Gweinidogion Cymru Mae ganddi hunaniaeth gyfreithiol glir o fewn fframwaith cadarn sefydledig. Mae gwahaniaeth clir rhwng Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, sy'n caniatáu i Drafnidiaeth Cymru wneud penderfyniadau gweithrediadol yn annibynnol.

Mae argymhellion y Pwyllgor yn ymdrin â materion gweithrediadol ar gyfer Trafnidiaeth Cymru. Gofynnwyd i Drafnidiaeth Cymru ystyried sut bydd yn gweithredu'r argymhellion ac i ymateb i'r Pwyllgor yn uniongyrchol.

**Argymhelliad 1**

Dylai Trafnidiaeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau ei hadroddiad llawn terfynol ar yr ymchwiliad i achosion y problemau ar y rheilffyrdd cyn gynted ag y bo modd, ynghyd â chynllun gweithredu sy'n amlinellu sut mae'n ymateb i'r canfyddiadau a manylion llawn ei chynlluniau i baratoi ar gyfer hydref 2019.

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 2**

Dylai Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Network Rail weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod a) canfyddiadau'r adroddiad ar yr ymchwiliad i'r problemau yn hydref 2018 a b) gwaith ymchwilio pellach â chamerâu ar drenau'n cael eu defnyddio i lywio gwaith Network Rail o gynllunio a blaenoriaethu ei weithrediadau, ei waith cynnal a chadw a'i wariant ar adnewyddu. Bydd y Pwyllgor yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch sut mae hyn wedi cael ei wneud cyn hydref 2019.

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 3**

Dylai Trafnidiaeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ddiwedd 2019 ar ei safonau perfformiad newydd, a'i chynlluniau ar gyfer hysbysu'r cyhoedd am yr amrediad llawn o safonau a data perfformiad mewn modd tryloyw, ac mewn modd sy'n caniatáu cymhariaeth ystyrlon â lefelau gwasanaeth blaenorol i fesur cynnydd dros amser. Cyn belled ag y bo modd dylai'r dangosyddion hyn gael eu cyhoeddi ar lefel sy'n ystyrlon i deithwyr, h.y. ar lefel llwybr a gwasanaeth unigol.

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 4**

Dylai Trafnidiaeth Cymru weithio gyda grwpiau teithwyr, gan gynnwys Transport Focus, i ymchwilio i ffyrdd o ddarparu iawndal ychwanegol heb fynd i gostau sylweddol lle mae problemau difrifol gyda gwasanaethau, fel yn hydref 2018. Rhaid cydnabod yr effaith ddifrifol ar deithwyr ni waeth beth fo natur y setliad ar gyfer y rheilffyrdd yng Nghymru. Os bydd problemau ar y raddfa hon yn digwydd yn y dyfodol, byddwn yn disgwyl i fesurau iawndal ychwanegol gael eu gweithredu.

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 5**

Dylai Trafnidiaeth Cymru ymateb i'r pryderon penodol a leisiwyd gan randdeiliaid pan ymgynghorwyd â nhw ynghylch y fasnachfraint rheilffyrdd newydd a'r Metro, y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad hwn, i roi sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd problemau o ran capasiti yn derbyn y sylw priodol drwy welliannau i'r gwasanaeth wedi'u cynllunio, ac y bydd cynllunio ar gyfer capasiti yn ystyried yr holl ffactorau a allai effeithio ar alw yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 6**

Mae profiadau yn y gorffennol yn dangos yr angen am ddull clir ar gyfer nodi risgiau i gerbydau yn y dyfodol a rheoli'r risgiau hynny mewn modd cadarn. Rhaid rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor a'r cyhoedd fod Trafnidiaeth Cymru wedi cynnal asesiad llawn o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i chynlluniau ar gyfer caffael a chyflwyno cerbydau newydd ar y rhwydwaith, a sut y bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru, boed y ddogfen gyhoeddedig hon yn cael ei galw'n 'strategaeth cerbydau' neu enw arall.

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llawr 5, Tŷ South Gate
Stryd Wood
Caerdydd CF10 1EW
029 2167 3434
cyswllt@trc.llyw.cymru
trc.llyw.cymru

5th Floor, South Gate House
Wood Street
Cardiff CF10 1EW
029 2167 3434
contact@tfw.gov.wales
tfw.gov.wales

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

03 Mai 2019

**Ymateb Trafnidiaeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar yr Amharu ar y Rheilffyrdd yn ystod yr hydref**

Annwyl Bwyllgor

Diolch i chi am rannu gyda ni adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar yr Amharu ar y Rheilffyrdd yn ystod yr hydref. Rydym yn croesawu'r adroddiad ac yn diolch i'r pwyllgor am ei waith.

Erbyn hyn mae ychydig dros chwe mis wedi mynd heibio ers i ni ddechrau rhedeg Masnachfraint Cymru a'r Gororau, a chawsom gyfnod anodd iawn oherwydd Storm Callum a'r hydref. Rwyf wedi dweud o'r blaen nad oedd cynifer â 36 o drenau ar gael oherwydd yr angen am atgyweiriadau hanfodol, ac er fy mod yn cydnabod effaith yr amhariad hwnnw ar ein cwsmeriaid a'ch etholwyr, ni wnes i esgusodion gan nad dyma'r gwasanaeth y mae ein cwsmeriaid yn ei haeddu nac yn ei ddisgwyl gennym fel gweithredwr eu trenau.

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i roi'r profiad gorau i'n cwsmeriaid cyn gynted â phosibl, a dyna pam rydym yn buddsoddi £40 miliwn yn ein fflyd bresennol, ac eleni byddwn yn cyflwyno rhai trenau newydd wedi eu hadnewyddu. Bydd y buddsoddiad hwn yn golygu ein bod yn gosod Teclynnau Diogelu Olwynion rhag Llithro i wella lefelau gwasanaeth yn y dyfodol yn ogystal â chyllido gwasanaethau ychwanegol i wella profiad ein cwsmeriaid a'n gwelliannau hygyrchedd.

Gan fod adroddiad a'r argymhellion yn canolbwyntio ar y gweithrediadau yn ystod yr hydref, rwy'n ymateb ar ran Llywodraeth Cymru. Gan hynny, rwy'n falch o dderbyn argymhellion y pwyllgor. Mae hefyd yn deg dweud na fydd ein cynllunio ar gyfer yr hydref byth yn stopio, ac wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i redeg gwasanaeth y mae ein cwsmeriaid yn ei haeddu.

**Argymhelliad 1.** Dylai Trafnidiaeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau ei adroddiad ymchwiliad llawn terfynol i achosion yr amharu ar y rheilffyrdd cyn gynted ag y bo modd, ynghyd â chynllun gweithredu sy’n nodi sut mae’n ymateb i’r canfyddiadau a manylion llawn ei gynlluniau parodrwydd ar gyfer hydref 2019

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn cyhoeddi'r canfyddiadau a'r adroddiad cynnydd diweddaraf o adroddiad Ymchwiliad yr Hydref ar y wefan o dan 'Bod yn Agored a Thryloyw'. Er mwyn bod yn agored rydym yn rhannu fersiwn Saesneg yr adroddiad hwn gyda chi, ac rydym wrthi'n cyfieithu'r ddogfen hon i'w rhoi ar ein gwefan.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tasglu ar y cyd yr hydref ddydd Mercher 27 Chwefror, gyda'r nod o sefydlu ymchwiliad ar y cyd i ddod o hyd i achosion sylfaenol a nodi mesurau i leihau'r risg o olwynion gwastad yn 2019. Mae'r tîm ymchwilio yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru, Network Rail ac ymgynghorydd rhyngwyneb olwynion/rheilffyrdd annibynnol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn mynd i'r afael â materion. Bydd y Bwrdd Diogelwch a Safonau'r Rheilffyrdd (RSSB) hefyd yn cymryd rhan i gyfryngu trafodaeth os oes angen a sicrhau bod y canfyddiadau'n cynrychioli arferion gorau'r diwydiant, neu y gall helpu i'w llywio. Mae cwmpas y gweithgor yn cael ei arwain gan ganfyddiadau'r adroddiad hwn ac yn cael ei ddiweddaru'n gyson wrth i gamau gael eu cwblhau.

Mae 19 o argymhellion wedi cael eu nodi hyd yma, gyda'r nod o liniaru ymdrechion lle gwelir yr enillion mwyaf ar gyfer hydref 2019. Bydd allbynnau'r tasglu hwn yn bwydo'n uniongyrchol i Gynllun yr hydref ar y cyd, sef cynllun cyfannol a chynhwysfawr i liniaru a lleihau effaith yr hydref ar y rhwydwaith rheilffyrdd i deithwyr.

---

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Network Rail weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod a) canfyddiadau'r adroddiad ymchwilio i'r amharu yn ystod hydref 2018 a b) gwaith ymchwil pellach gyda chamerâu ar drenau, yn cael eu defnyddio i lywio gwaith cynllunio a blaenoriaethu Network Rail o'i wariant ar weithrediadau, cynnal a chadw ac adnewyddu. Bydd y Pwyllgor yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch sut mae hyn wedi cael ei wneud cyn hydref 2019.

**Ymateb: Derbyn**
Fel y crybwyllwyd uchod, bydd y tîm ymchwilio yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru, Network Rail ac ymgynghorydd rhyngwyneb olwynion/rheilffyrdd annibynnol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn mynd i'r afael â materion. Bydd y Bwrdd Diogelwch a Safonau'r Rheilffyrdd hefyd yn cymryd rhan i gyfryngu trafodaeth os oes angen a sicrhau bod y canfyddiadau'n cynrychioli arferion gorau'r diwydiant, neu y gall helpu i'w llywio.

Mae'r adroddiad ar y Cyd ar yr Ymchwiliad i Adlyniad yn manylu ar ganfyddiadau camerâu'r rhyngwyneb rhwng y cledrau a'r olwynion yn ystod hydref 2018. I gloi, dangosodd y recordiad fideo nifer o faterion posibl yn ymwneud â'r rhyngwyneb rhwng y cledrau a'r olwynion:
- Olwynion yn llithro wrth frecio ar gromlin lem;
- Deunydd llithrig neu ddŵr ar y cledrau;
- Rhywfaint o lystyfiant ger y rheilffordd;
- Llwch yn tasgu o'r rhyngwyneb, yn enwedig yn ystod cyswllt fflans.

---

**Argymhelliad 3.** Dylai Trafnidiaeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ddiwedd 2019 ar ei safonau perfformiad newydd a'i gynllun ar gyfer cyfathrebu'r amrywiaeth lawn o ddata safonau a pherfformiad i'r cyhoedd sy'n teithio, mewn ffordd dryloyw ac sy'n galluogi

cymhariaeth ystyrlon â lefelau gwasanaeth blaenorol er mwyn mesur cynnydd dros amser. Cyn belled ag y bo modd, dylai'r dangosyddion hyn gael eu cyhoeddi ar lefel sy'n ystyrlon i deithwyr, h.y. ar lefel llwybr a gwasanaeth unigol.

**Ymateb: Derbyn**
Ar hyn o bryd rydym yn cyhoeddi adroddiad perfformiad ar wefan Trafnidiaeth Cymru, gan ddangos ystadegau yn ôl llinell llwybr a chymharu'r cyfnod diweddaraf â'r flwyddyn flaenorol a'r cyfnod blaenorol. Gellir dod o hyd i hyn ar wefan trc.llyw.cymru o dan y tab 'Bod yn agored a thryloyw'; dolen: https://tfw.gov.wales/cy/perfformiad . Drwy fod yn agored a thryloyw gyda'r cyhoedd sy'n teithio, mae Trafnidiaeth Cymru yn gobeithio y bydd yn cryfhau'r berthynas â phobl sy'n teithio a rhanddeiliaid ac yn codi ymwybyddiaeth o sut rydym yn gweithio gyda chymunedau a busnesau lleol i wella gwasanaethau trafnidiaeth yng Nghymru.

Bydd yr adroddiad perfformiad hwn yn esblygu dros yr wythnosau nesaf i addasu i'r gyfundrefn perfformiad newydd sy'n canolbwyntio ar deithwyr a ddechreuodd ar 1 Ebrill, a fydd yn cynnwys disgrifiad a chanlyniadau cychwynnol y metrigau newydd; Amser mae Teithwyr yn ei Golli a Ffurfiadau Byr.

Bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn darparu diweddariad onest ar berfformiad ein rheilffyrdd yn rhifyn nesaf yr Adroddiad i Gwsmeriaid ar y wefan. Caiff hwn ei gyhoeddi bob chwe mis a'i gyflwyno fel crynodeb i ddarparu metrigau sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer na'r rhai presennol, gan gynnwys cynnydd yn erbyn targedau.

---

**Argymhelliad 4.** Dylai Trafnidiaeth Cymru weithio gyda grwpiau teithwyr, gan gynnwys Transport Focus, i archwilio ffyrdd o ddarparu iawndal ychwanegol heb orfod talu costau sylweddol lle mae amhariad difrifol i wasanaethau, fel y digwyddodd yn ystod hydref 2018. Rhaid cydnabod yr effaith ddifrifol ar deithwyr, waeth beth yw natur y setliad ariannol ar gyfer rheilffyrdd yng Nghymru. Os bydd tarfu ar y raddfa hon yn digwydd eto, rydym yn disgwyl i fesurau iawndal ychwanegol gael eu cymhwyso.

**Ymateb: Derbyn**
Rydym yn cydnabod bod teithwyr eisiau gwasanaeth trenau dibynadwy a'r modd o gael eu digolledu'n deg pan fydd pethau'n mynd o chwith pan nad oes bai arnynt eu hunain. Rydym yn ymroddedig i'n teithwyr, ac ym mis Ionawr eleni fe wnaethom gyflwyno 'Ad-daliad am Oedi 15'. Mae hwn yn gam mawr i'r cyfeiriad cywir, ac yn sgil cyflwyno hwn, mae teithwyr bellach yn gallu hawlio 25% o gost pris tocyn unffordd am oedi rhwng 15 a 29 munud ar ben y trothwyon iawndal presennol ar gyfer oedi o 30 munud a throsodd.

Gyda chyflwyno'r gyfundrefn berfformio newydd fel y crybwyllwyd yn argymhelliad 3, byddwn yn gallu mesur yr effaith ar y cyhoedd sy'n teithio mewn modd llawer mwy effeithiol gan ddefnyddio metrigau fel Amser mae Teithwyr yn ei Golli a Ffurfiadau Byr i sicrhau bod lefelau prydlondeb a chapasiti yn dderbyniol. Byddwn yn defnyddio'r mesurau hyn sy'n canolbwyntio ar deithwyr i gymharu â'r tarfu yn yr hydref yn 2018 a chyhoeddi hyn ar ein gwefan er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw.

Byddwn hefyd yn gweithio'n agosach gyda'n grwpiau teithwyr sydd â buddiant, fel Transport Focus, i nodi ac archwilio dulliau ychwanegol o ddigolledu teithwyr yn ystod amhariad difrifol ar wasanaethau, heb fynd i gostau sylweddol.

---

**Argymhelliad 5.** Trafnidiaeth Cymru i ymateb i'r pryderon penodol a godwyd gan randdeiliaid pan ymgynghorir ar y fasnachfraint rheilffyrdd a Metro newydd, ac a amlygwyd yn yr adroddiad hwn, i sicrhau'r Pwyllgor y bydd materion yn ymwneud â gallu yn cael sylw priodol drwy welliannau wedi eu cynllunio i'r gwasanaeth, ac y bydd cynllunio capasiti yn ystyried yn llawn pob ffactor a all effeithio ar y galw yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**
Rydym yn gwerthfawrogi bod llawer o wasanaethau trenau ledled Cymru a'r Gororau yn orlawn; mae cynlluniau ar waith i unioni hyn. Yn y tymor byr, rydym wedi archebu fflyd ychwanegol wedi ei hadnewyddu a fydd yn ymuno â'r rhwydwaith yn 2019.

Gan edrych ymlaen, mae cynnydd sylweddol mewn capasiti wedi ei gynllunio ar draws holl rwydwaith rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn y blynyddoedd i ddod. Erbyn 2023, bydd 95% o deithiau yn digwydd ar drenau newydd, gyda rhagor o gerbydau, a byddwn yn rhedeg 285 o wasanaethau ychwanegol bob dydd o'r wythnos. Rydym wedi modelu'r galw am wasanaethau hyd at 2033 ac rydym yn cynyddu amlder ac yn prynu digon o drenau o hyd digonol i ymdopi â'r galw hwnnw.

Rydym yn cydnabod bod rhannau helaeth o Gymru naill ai'n parhau heb gysylltiad â rheilffyrdd neu fod cyfyngiadau o ran seilwaith (e.e. trac llinell sengl). Nid yw'r cyfrifoldeb dros seilwaith rheilffyrdd, na'r cyllid ar ei gyfer, wedi ei ddatganoli, ac mae yn nwylo llywodraeth y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn rhaglen o welliannau seilwaith rheilffyrdd ac mae'n parhau i ystyried dewisiadau ar gyfer ehangu a gwella'r rhwydwaith presennol.

Dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, mae Trafnidiaeth Cymru o blaid datblygu dewisiadau o'r fath drwy ei waith dichonoldeb; gan gynnwys ymchwilio i gynnydd yn amlder gwasanaethau ar linellau Glynebwy a Maesteg.

Mae gan Faesteg a Glynebwy gyfyngiadau unigryw sy'n golygu na allem eu hychwanegu at y Metro Canolog ar hyn o bryd, ond mae is-set o waith dichonoldeb pwysig ar y gweill, ac rydym yn gobeithio buddsoddi yn y ddau lwybr yn y dyfodol.

Drwy ein tîm Prosiectau Corfforaethol ac Ymgynghori, mae gennym y gallu a'r cymhwysedd i wneud gwaith dichonoldeb ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth aml-foddol uchelgeisiol/posibl. O fewn y tîm hwn, mae uned ddadansoddi yn cael ei datblygu, gyda'r nod o gynyddu ansawdd a chysondeb y dystiolaeth sy'n sail i benderfyniadau a buddsoddiadau mewn trafnidiaeth yng Nghymru. Mae'r Uned Dadansoddi hefyd yn gyfrifol am fodelau trafnidiaeth ranbarthol Llywodraeth Cymru - mae Model Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru eisoes yn bodoli tra bydd y modelau ar gyfer De Orllewin a Chanolbarth a Gogledd Cymru yn cael eu datblygu'n fuan. Bydd y modelau rhanbarthol yn helpu Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau

lleol i ragweld anghenion y rhwydwaith trafnidiaeth yn y dyfodol ar draws pob math o drafnidiaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso am ddatganoli pwerau rheilffyrdd, fel y gall - ochr yn ochr â Trafnidiaeth Cymru - benderfynu ar y ffordd orau o fuddsoddi yn y gwaith o wella'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru mewn ffordd sy'n diwallu anghenion ein cymunedau a'n rhanddeiliaid.

Mae'r cynlluniau rydym wedi ymrwymo iddynt wedi eu cynllunio i fod yn hyblyg ac yn addas i'w hymestyn, fel na fydd ein cynlluniau byth yn rhwystro datblygiad trafnidiaeth ymhellach. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'n rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai a amlygwyd yn yr adroddiad.

---

**Argymhelliad 6.** Mae profiad blaenorol yn amlygu'r angen am ymagwedd glir at nodi a rheoli risgiau yn gadarn yn y dyfodol o ran cerbydau. Rhaid i'r Pwyllgor a'r cyhoedd sy'n teithio gael sicrwydd cyhoeddus bod Trafnidiaeth Cymru wedi gwneud asesiad llawn o'r risgiau sydd ynghlwm wrth ei gynlluniau ar gyfer caffael a chyflwyno cerbydau newydd i'r rhwydwaith, a sut bydd y rhain yn cael eu lliniaru, pa un ai a ddisgrifir y ddogfen gyhoeddedig hon fel 'strategaeth gerbydau' neu dan enw arall.

**Ymateb: Derbyn**
Ar hyn o bryd mae Trafnidiaeth Cymru wrthi'n datblygu ein Cynllun Rheoli Risg ar gyfer cerbydau, a'r gobaith yw y bydd y ddogfen hon wedi cael ei chwblhau dros yr wythnosau nesaf.

Bydd y Cynllun Rheoli Risg yn amlinellu ein hymagwedd at reoli'r holl risgiau ar ein prosiectau cerbydau newydd, fel bod ein gofynion a'n hamcanion busnes yn cael eu diwallu'n llawn. Nod y ddogfen fydd nodi a lliniaru ar y cyfle cyntaf posibl yr holl risgiau a allai effeithio ar lwyddiant ein holl brosiectau trenau newydd. Bydd dealltwriaeth lawn o ofynion, amserlenni a chyfyngiadau masnachol a thechnegol yr holl randdeiliaid yn rhan hanfodol o'r ymagwedd hon.


Bydd ymagwedd rheoli risg cynyddol yn cael ei defnyddio drwy gydol pob cam o oes y prosiect, ac i sicrhau yn y pen draw y bydd ein fflydoedd newydd yn cael eu darparu'n brydlon, yn unol â'r safonau gofynnol, ac y byddant yn cyflawni ac yn parhau i fodloni lefelau dibynadwyedd ac argaeledd y contract. Bydd y Cynllun Rheoli Risg yn sicrhau, os bydd oedi o ran y dyddiadau cyflwyno unedau newydd a raglennwyd, y bydd mesurau lliniaru addas yn cael eu gweithredu i sicrhau bod cerbydau presennol (neu amgen) yn cael eu cadw ar y rhwydwaith i sicrhau bod yr amserlen i deithwyr yn parhau i gael ei chyflwyno.

O ran cael gwared ar y cerbydau presennol yn raddol, bydd hyn yn cael ei ymgorffori ym mhob cynllun cyflwyno cerbydau newydd manwl, a bydd yn gysylltiedig â chyflwyno pob uned newydd sy'n cael ei chyflwyno ar y rhwydwaith. O fewn ein prosesau, bydd deialog gyda

chwmnïau prydlesu cerbydau yn parhau er mwyn sicrhau bod gennym y dewis o gadw unedau presennol ar brydles nes bod y fflydoedd newydd yn gwasanaethu teithwyr yn llwyddiannus.

Ar ôl ei gwblhau, byddem yn falch o rannu copi o'r Cynllun Rheoli Risg gyda'r pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau. Mae hon yn debygol o fod yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru'n rheolaidd.

Yn gywir



James Price

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU**
**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG – PARTNERIAETHAU SGILIAU RHANBARTHOL**

Diben y papur yma ydy darparu tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar eu hymholiad i *Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol*.

**Cyd-destun**
Cyhoeddwyd y Datganiad Polisi ar Sgiliau yn 2014 ac roedd hwn yn dynodi symud at weithio'n rhanbarthol, gyda'r polisi yn newid o ddull gweithredu ar sail sectorau. Cyhoeddwyd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar 31ain Hydref 2014. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i dair partneriaeth ranbarthol flaenoriaethu eu hanghenion sgiliau rhanbarthol ar sail gwybodaeth wedi'i harwain gan gyflogwyr rhanbarthol a lleol, er mwyn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau yn gydnaws â'r galw a nodwyd ym mhob rhanbarth.

Roedd symud at fodel rhanbarthol yn cael ei ategu ymhellach gan ein Strategaeth Genedlaethol "Ffyniant i Bawb" a gyhoeddwyd ar 19 Medi 2017, lle nodwyd bod cyflogadwyedd a sgiliau yn thema drawsbynciol, a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018 a oedd yn cryfhau'r dull gweithredu rhanbarthol ymhellach. Roedd hwn yn disgrifio model ar gyfer gweithio rhanbarthol a oedd yn gosod y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wrth galon y model cyflawni.

Roedd y dyhead yn glir. Cafodd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ran allweddol i'w chwarae sef helpu i chwalu'r cylch o sgiliau isel, cyflogau isel a chynhyrchiant isel. Byddai modd iddynt adnabod bylchau mewn sgiliau a phrinder sgiliau ym mhob rhanbarth drwy ddatblygu dealltwriaeth well o'r cyfleoedd a'r buddsoddiadau a oedd yn yr arfaeth, gan ddefnyddio gwybodaeth gan gyflogwyr a rhanddeiliaid.
Dyma'r tair partneriaeth:

- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru
- Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Roedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a Phartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru yn gweithredu drwy strwythurau datblygu economaidd rhanbarthol cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Gweithiodd swyddogion yn agos gyda rhanddeiliaid yn rhanbarth y De-ddwyrain i helpu i sefydlu Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer ardal Caerdydd. Caiff pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ei hariannu drwy gontract gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i gyflawni cyfres o allbynnau y cytunir arnynt. Dyma'r broses o hyd ar gyfer ariannu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gan mai partneriaethau gwirfoddol heb statws cyfreithiol ydynt. Mewn unrhyw asesiad o effaith Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rhaid ystyried yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Eleni, mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi cael £495,000 gan Lywodraeth Cymru, ac ni fu cynnydd mesuradwy mewn cyllid ers dechrau'r model sy'n cael ei arwain gan y galw. Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol yn y disgwyliadau sy'n ymwneud â rôl Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae gan bob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Reolwr Rhaglen, ymchwilydd a chymorth gweinyddol sy'n gyfrifol am ymgysylltu â chyflogwyr, rheoli'r holl gysylltiadau â rhanddeiliaid a chynhyrchu'r sylfaen dystiolaeth ymchwil ar gyfer y cynlluniau cyflogaeth a sgiliau.

Mae gan bob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gontract i gyflawni cynllun cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol i Lywodraeth Cymru yn ogystal â thempled cynllunio a chyllido sy'n argymell cynnydd neu ostyngiad mewn darpariaeth sgiliau. Mae atodlen y contract gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys gofynion i bob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gynnal arsyllfeydd sgiliau rhanbarthol, datblygu rhwydweithiau cyflogwyr, gweithio'n agos gydag Ardaloedd Menter a chynnal uwchgynadleddau sgiliau rhanbarthol i ddosbarthu eu hargymhellion a'u hallbynnau rhanbarthol. Cafodd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rôl allweddol yn y Cynllun Cyflogadwyedd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 o ran eu hasesiad o'r anghenion sgiliau ym mhob rhanbarth. Mae ganddynt ran allweddol i'w chwarae hefyd o ran cyflawni'r Cynllun Polisi Prentisiaethau a chyrraedd targedau Iaith Gymraeg. Mae gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol hefyd ran allweddol i'w chwarae drwy ddylanwadu ar ddatblygiadau mewn sectorau allweddol, er enghraifft cyfrannu at oblygiadau sgiliau'r cyfeiriad polisi Datgarboneiddio a'r Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi symud at sefydlu strwythur llywodraethu cryf ac mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn rhan o hynny. Mae Cadeirydd pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn aelod allweddol o Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru sydd maes o law yn adrodd ar faterion sy'n ymwneud â chyflogadwyedd a sgiliau i Gyngor Datblygu'r Economi sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog. Mae Cadeiryddion Cyflogwyr Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn gyfrifol am gadeirio WESB yn eu tro i sicrhau y canolbwyntir ar y materion sydd bwysicaf i gyflogwyr ym mhob un o'r tri rhanbarth.

**Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf**

Mae cyflawni Bargeinion Dinesig a'r Fargen Twf arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru wedi golygu y bu'n rhaid ailedrych ar lywodraethu. Mae gan bob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol strwythur gwahanol, o ran ei gweithredoedd a'i his-grwpiau ei hun ac, yn bwysicach, mewn perthynas â Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf. Cafodd Bargen Ddinesig Caerdydd ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2017 a chafodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe ei chyhoeddi ym mis Tachwedd 2018. Cafodd Bargen Twf Gogledd Cymru ei sicrhau gan Lywodraeth y DU ac, ym mis Ionawr 2019, roedd y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi ymrwymo mewn egwyddor i ddarparu arian cyfatebol i ymrwymiad ariannol y DU. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda Tyfu Canolbarth Cymru, fforwm economaidd ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru, ynghylch Bargen Twf Canolbarth Cymru sydd wedi annog y rhanddeiliaid i ystyried yr angen i sefydlu eu Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol eu hunain yn hytrach na bod yn rhan o Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Adroddiad Annibynnol ar Lywodraethu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru ac fe gynhyrchodd Dr John Graystone yr adroddiad ym mis Mawrth 2018. Yn benodol, roedd yn argymell y dylai Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol barhau i fod yn bartneriaethau gwirfoddol a pheidio â mabwysiadu strwythurau cyfreithiol ac y dylai Llywodraeth Cymru adolygu adnoddau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac ystyried eu rôl gynyddol. Roedd yr argymhellion eraill yn cynnwys yr angen am ragor o dryloywder, gyda chofnodion a chylch gorchwyl yn cael eu cyhoeddi i'r cyhoedd, a'r angen am ragor o gysondeb rhwng y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

**Adolygiad annibynnol o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol**

Ym mis Tachwedd 2018, roedd Gweinidog blaenorol y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi ymrwymo i gynnal adolygiad annibynnol o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Ym mis

Chwefror 2019 comisiynydd y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth SQW i gynnal yr adolygiad. Mae SQW wedi edrych ar effaith Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'r trefniadau llywodraethu gan ganolbwyntio'n benodol ar y cysylltiadau ar draws y rhanbarthau i strwythurau Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf. Bydd yn cwblhau ei waith erbyn diwedd mis Ebrill 2019. Mae canfyddiadau interim ei ymgynghoriad yn dangos, ar y cyfan, bod y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi llwyddo i greu dull gweithredu sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr ym mhob rhanbarth, gan gydnabod ei bod hi'n cymryd amser i ddatblygu partneriaethau a bod pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi dechrau o fan cychwyn gwahanol. Roedd SQW hefyd yn cydnabod y cysondeb gweithredol rhwng y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Y brif her i Lywodraeth Cymru ydy ymateb i'r consensws eang hyd yma (ymysg darparwyr, cyflogwyr a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eu hunain) bod angen cylch gwaith sy'n fwy strategol bellach er mwyn galluogi'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ystyried y galw posibl am sgiliau dros y tymor hwy. Gwelodd SQW fod ymgyngoreion yn croesawu'r newid yn 2019 at broses cynllunio tair blynedd o hyd ac roeddent yn gweld cyfle go iawn i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol roi golwg strategol ar y galw am sgiliau dros y tymor hwy gan ymestyn eu dylanwad o'r model cynllunio ac ariannu cyfredol a oedd yn canolbwyntio ar weithredu. Byddai hyn yn mynd y tu hwnt i Addysg Bellach a Phrentisiaethau i gynnwys y system sgiliau ehangach gan gynnwys ysgolion, prifysgolion a sgiliau'r dyfodol pobl sydd eisoes yn rhan o'r farchnad lafur ac anghenion tymor hwy economi Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ac yn ymateb i ganfyddiadau llawn adolygiad SQW erbyn mis Mehefin 2019.

**Gwybodaeth am y Farchnad Lafur a data rhanbarthol**
At ei gilydd mae'r cynlluniau cyflogaeth a sgiliau wedi cael eu croesawu gan gyflogwyr a rhanddeiliaid yn y rhanbarthau. O ran arddull a chynnwys mae'r cynlluniau hyn wedi bod o safon debyg i'r cynlluniau sgiliau a gynhyrchwyd gan fyrddau cyflogaeth a sgiliau Dinas-ranbarthau yn Lloegr. Yn 2018, yng ngoleuni argymhellion Graystone, gofynnwyd i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gyflwyno Adroddiadau Blynyddol a oedd yn fyrrach ac yn canolbwyntio ar y sylfaen dystiolaeth ar gyfer newidiadau i gyllid ar draws cyllidebau Prentisiaethau ac Addysg Bellach a nodwyd yn y Templed Cynllunio a Chyllido. Ym mis Ebrill 2019, cafodd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eu contract newydd ac mae'n rhaid iddynt nawr gwblhau cynllun strategol tair blynedd o hyd gydag Adroddiadau Blynyddol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prif ddatblygiadau ym mhob rhanbarth.

Mae'r angen am wybodaeth gadarn am y farchnad lafur yn sail i adroddiadau rhanbarthol y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn dadansoddi ymchwil eilaidd, gan ddefnyddio data o golegau addysg bellach a drwy ddefnyddio gwybodaeth feddal o'u rhwydweithiau cyflogwyr. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cael Adroddiadau Gwybodaeth am y Farchnad Lafur Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr bob blwyddyn ac wedyn caiff y rhain eu cyhoeddi ar y Porth Sgiliau. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth graidd am y farchnad lafur ar gyfer pob rhanbarth ac yn rhoi ffynhonnell gyffredin i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer y wybodaeth honno am y farchnad lafur. Yn bennaf daw'r ffigurau o StatsCymru, a daw rhagor o wybodaeth am y farchnad lafur o'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr a Dyfodol Gwaith. Mae'r holl ddata a ddaw o StatsCymru yn cynnwys dolenni sy'n golygu bod modd i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gael gafael ar y fersiwn ddiweddaraf o'r data gan StatsCymru. Mae'r dull gweithredu hwn wedi golygu bod Llywodraeth Cymru wedi gallu

sefydlu "Fframwaith Gwybodaeth Gyffredin am y Farchnad Lafur ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol", gan sicrhau bod pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn defnyddio setiau data cyffredin. Mae pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn gweithredu arsyllfa gwybodaeth am y farchnad lafur ac mae'r llwyfannau hyn yn cael eu defnyddio fel ffynonellau data er mwyn cyfrannu at flaenoriaethu sectorau economi sylfaen a thwf.

**Strategaethau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ymgysylltu â chyflogwyr**
Mae gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gadeiryddion cyflogwyr a ffurfweddiad aelodaeth sy'n golygu bod tua hanner cant y cant o'u haelodau yn gyflogwyr. Mae pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi datblygu strategaethau gwahanol i ymgysylltu â chyflogwyr o ddefnyddio fforymau partner sydd wedi ennill eu plwyf fel Cyngor Busnes Gogledd Cymru (a ddefnyddir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru), i greu eu his-grwpiau clwstwr o gyflogwyr fel sy'n digwydd gyda Phartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru a Phartneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector yn aelodau o'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol hefyd fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a'r Ffederasiwn Busnesau Bach. Mae cyflogwyr sy'n eistedd yn uniongyrchol ar fyrddau'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn rhoi safbwynt cyflogwyr sy'n aml yn cynrychioli safbwynt eu sefydliad yn hytrach na'r sector drwyddo draw er nad yw hyn yn wir ym mhob achos. Mae sicrhau cymysgedd o gyflogwyr hefyd yn bwysig oherwydd yn ddelfrydol dylid cael cynrychiolaeth o'r anghenion sgiliau o ficrofusnesau i gwmnïau rhyngwladol. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi datblygu cysylltiadau gydag Ardaloedd Menter er bod hyd a lled yr ymgysylltiad yn amrywio ar draws pob rhanbarth ac Ardal Fenter.

**Cylch Cynllunio – Bod yn gydnaws ag argymhellion Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol**
Cafodd y Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16 ei gyflwyno yn 2014/15 pan symudodd y gweithgareddau cynllunio a chyllido dysgu at ddull gweithredu a oedd yn seiliedig ar raglenni. Mae hyn wedi golygu bod cynllunio a chyllido'r cwricwlwm yn cael ei graffu'n fwy manwl ar gyfer addysg gyffredinol a chynlluniau cwricwlwm galwedigaethol amser llawn mewn dosbarthiadau chwech a cholegau addysg bellach cyn pob blwyddyn academaidd. Ym mis Mawrth 2018, roedd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cytuno ar fethodoleg cynllunio peilot arfaethedig i gryfhau'r monitro a'r atebolrwydd ar gyfer cyflawni mewn sefydliadau addysg bellach yn 2018/19. Ar hyn o bryd nid yw hyn yn berthnasol i ddosbarthiadau chwech ysgolion (Safon Uwch) ac addysg uwch (yn enwedig ar Lefelau 4 a 5/Gradd sylfaen).

Mae cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol yn rhoi cyfeiriad strategol ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 drwy gyfleu'r newidiadau yn anghenion sgiliau cyflogwyr yn y rhanbarth a'u dylanwad ar berthnasedd economaidd darpariaeth ôl-16. Caiff templed cynllunio a chyllido[1] ei roi i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol lle maent yn amlinellu eu hargymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfer newidiadau mewn darpariaeth. Ar ôl cael cymeradwyaeth, mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu'r templedi i sefydliadau addysg bellach drwy'r fethodoleg cynllunio ôl-16 er mwyn cyfrannu at a dylanwadu ar

[1] *Mae'r templedi cynllunio a chyllido yn ddogfennau gweithredol ac NID ydynt yn cael eu cyhoeddi.*

gynlluniau cwricwlwm ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf[2]. Mae sefydliadau addysg bellach wedyn yn cyflwyno cynlluniau cyflawni/cwricwlwm terfynol i Lywodraeth Cymru i'w hasesu, gyda'r nod o allu:

- Sicrhau bod cynnydd cyson a phwyllog yn cael ei wneud yn ôl argymhellion y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer darpariaeth amser llawn mewn sefydliadau addysg bellach;
- Monitro effaith blaenoriaethau rhanbarthol ar y ddarpariaeth amser llawn sydd ar ôl er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cefnogi symud ymlaen i lefelau uwch a hybu tryloywder a chynllunio cydweithredol ar lefel ranbarthol rhwng sefydliadau addysg bellach;
- Monitro a chryfhau ymateb sefydliadau addysg bellach i gynyddu nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn erbyn rhaglenni dysgu amser llawn penodol; a
- Pharhau i ofyn am gyngor ar welliannau i'r fethodoleg cynllunio a chyllido ar gyfer addysg bellach.

Ar hyn o bryd mae swyddogion wrthi'n datblygu Model Rhanbarthol diwygiedig ar Lefel a Maes Pwnc Sector ar gyfer cylch cynllunio 2020/21 gan arwain at symud at set ehangach o argymhellion addysg bellach rhanbarthol i golegau yn hytrach na lefel micro gynllunio. Mae argymhellion 2018/19 yn berthnasol i gyfnod o dair blynedd o 2018/19 i 2020/21 yn dilyn adborth gan y sector addysg bellach a bydd hyn nawr yn cael ei gryfhau ymhellach, wedi'i ategu gan ganfyddiadau interim adolygiad SQW. Bydd rhoi cylch gwaith ehangach i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn dylanwadu ar sgiliau galwedigaethol ar draws pob sector diwydiant gan gynnwys blaenoriaethau economaidd ac economi sylfaen yn hytrach na sectorau â blaenoriaeth hefyd yn ddatblygiad allweddol a fydd yn gwella eu rôl a'u dylanwad ar draws y rhanbarth.

Rhaid i ddarparwyr prentisiaethau sicrhau bod eu darpariaeth yn gydnaws er mwyn diwallu'r galw a nodir gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Fel rhan o broses rheoli contractau Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i ddarparwyr ddarparu gwybodaeth i gefnogi sut mae eu strategaethau cyflawni yn ymgorffori ac yn adlewyrchu gwybodaeth am y farchnad lafur Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Ar ben hynny, ar gyfer 2018/19, cafodd 3.5% o'r gyllideb Prentisiaethau (£5m) ei glustnodi i gefnogi'r meysydd hynny a nodwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Cafodd y £5m ei rannu ar draws y tri rhanbarth yn unol â phatrymau cyflawni hanesyddol hy £1m i Ogledd Cymru, £1.5M i Dde-orllewin a Chanolbarth Cymru a £2.5m i Dde-ddwyrain Cymru. Cafodd y cyllid hwn ei ddyrannu i 10 darparwr ar sail yn ôl y gofyn. Er mwyn gallu hawlio'r cyllid hwn, mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod y ddarpariaeth prentisiaethau yn diwallu'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a bod hyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth y byddent fel rheol wedi'i chynnig.

Datblygiad pwysig arall i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol oedd cyhoeddiad Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ym mis Mawrth 2018 ynghylch Cronfa Datblygu Sgiliau gwerth £10M i roi Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn rôl ganolog i ddylanwadu ar lle'r oedd angen darpariaeth sgiliau ym mhob rhanbarth. Gofynnwyd i'r Partneriaethau

[2] *Bydd Argymhellion Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cael eu gwneud i ddarpariaeth Alwedigaethol Amser Llawn a Phrentisiaethau yn unig. Hyd yma ni fu'n rhaid i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wneud argymhellion ar gyfer darpariaeth Safon Uwch nac Addysg Uwch.*

Sgiliau Rhanbarthol nodi blaenoriaethau rhanbarthol a fyddai'n cyfrannu at dair cais ranbarthol i'r Gronfa gan y sector addysg bellach. Mae'r Gronfa Datblygu Sgiliau wedi canolbwyntio ar gyflawni darpariaeth ranbarthol newydd sy'n cyd-fynd â'r anghenion strategol a nodwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ym mhob rhanbarth ac mae'n parhau i wneud hynny.

**Cyflogadwyedd**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cyflogadwyedd ym mis Mawrth 2018 a diweddariad ar y cynnydd flwyddyn yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2019. Mae'r Cynllun yn nodi cyfres o gamau gweithredu lle gall Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol chwarae rhan allweddol sy'n ymwneud â chefnogaeth cyflogadwyedd i unigolion, a chyfrifoldebau cyflogwyr o ran cyflogadwyedd a bylchau mewn sgiliau ym mhob rhanbarth. Cafodd y gwasanaeth cynghori Cymru'n Gweithio a ddarperir gan Gyrfa Cymru ei lansio ar 1af Mai ac mae'r gwasanaeth hwn yn un maes allweddol o gydweithio.

Mae Cymru'n Gweithio yn darparu cyngor diduedd ac annibynnol i unigolion ar y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn ymuno â'r farchnad lafur a symud ymlaen ynddi. Bydd y broses hon yn pennu cymhwysedd unigolyn, yn nodi'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cael cyflogaeth, gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag anabledd os bydd hynny'n briodol, a lefel yr ymyriad sydd ei angen i gefnogi'r unigolyn i gael cyflogaeth gyson. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru ar ei phorth cyfeirio gwybodaeth a chyngor rhanbarthol arbennig fel rhan o'r model Cymru'n Gweithio ehangach. Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar dreialu Cyfrifon Dysgu Personol o fis Medi 2019 ymlaen, gan ddarparu cefnogaeth i'r rheini sydd mewn gwaith i uwchsgilio.

**Ysgolion a Chwricwlwm**

Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn parhau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr yn eu rhanbarthau ac maent yn cysylltu â chonsortia rhanbarthol i gynyddu eu hymgysylltiad â'r fersiwn newydd o Gwricwlwm Cymru. Mae hyn yn cynnwys ystyried y cwricwlwm yng ngoleuni blaenoriaethau/datblygiadau seilwaith rhanbarthol ym mhob rhanbarth.

Mae pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi tynnu sylw at STEM fel maes sy'n arbennig o bwysig yn eu Hadroddiad Blynyddol i Lywodraeth Cymru ac mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eisoes yn datblygu atebion i wella gweithgareddau sy'n ymwneud â STEM yn eu rhanbarthau. Un enghraifft o'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo ydy'r prosiect "Camau STEM" sydd wedi cael ei ddatblygu gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi cynnal archwiliad i edrych ar y gweithgareddau hyd yma ac i gyfrannu at fynd i'r afael â'r bylchau mewn darpariaeth STEM. Ochr yn ochr â hynny, maent wedi bod yn gweithio gyda chyflogwyr a darparwyr i ddatblygu adnoddau ar-lein ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6, rhieni ac ymarferwyr. Mae hyn wedi cael ei lansio ar draws pob ysgol yng Ngogledd Cymru.

Yn y De Ddwyrain, mae cydweithrediad ardderchog rhwng ysgolion/diwydiant wedi cael ei sbarduno gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cynnwys datblygu "Ymrwymiad Caerdydd". O ganlyniad i gydweithrediad rhwng Admiral ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, cafodd myfyrwyr Blwyddyn 12 gyfle i ymweld ag Admiral yng Nghaerdydd ac roedd staff Admiral wedi rhoi cyngor ar sgiliau cyfweliad ac ar geisiadau am swydd i dros

340 o fyfyrwyr Blwyddyn 10. Yn y De Orllewin ac yn y Canolbarth, mae prosiect sy'n cael ei arwain ar y cyd gan Valero ac ECITB yn annog merched Blwyddyn 8 o ysgolion yn sir Gaerfyrddin a sir Benfro i ddilyn pynciau STEM. Mae disgyblion yn treulio diwrnod yng Ngholeg Sir Gâr ac yna diwrnod yn Valero, gan gymryd rhan mewn heriau STEM ac ymweld â'r safle. Mae hyn yn cael ei hwyluso gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer y De-orllewin a Chanolbarth Cymru.

**Casgliad**

Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi camu ymlaen yn sylweddol o ran cyfleu a marchnata eu rôl i gyflogwyr ac i randdeiliaid ers eu sefydlu. Mae Uwchgynadleddau Sgiliau blynyddol a digwyddiadau rheolaidd ym mhob rhanbarth wedi cael eu defnyddio i ddosbarthu canfyddiadau eu cynlluniau cyflogaeth a sgiliau ac er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid i siapio eu dealltwriaeth a'u blaenoriaethau rhanbarthol yn uniongyrchol. Mae dealltwriaeth dda bellach o'u rôl i ddarparu set glir o flaenoriaethau cyflogadwyedd a sgiliau i Lywodraeth Cymru ac mae proses glir ar gyfer gwneud hyn.

Mae'r penderfyniad i benodi Cadeiryddion cyflogwyr ar gyfer pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn gadarnhaol dros ben ac wedi cynyddu nifer y cyflogwyr sy'n aelodau o Fyrddau. Mae angen cyfnerthu hyn nawr er mwyn i ni gael llais cyflogwyr cryf yn cyfrannu at y ddarpariaeth sgiliau ym mhob rhanbarth. Mae cynnwys y cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol wedi cael ei gryfhau'n fawr o ganlyniad uniongyrchol i'r strategaethau ymgysylltu a ddisgrifir uchod. Mae'r broses o gynhyrchu cynlluniau wedi aeddfedu ac mae'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r cynlluniau wedi dod yn fwy cadarn. O ran ansawdd a safon mae'r cynlluniau'n cyfateb i gynlluniau tebyg sy'n cael eu cynhyrchu ar draws y DU.

Rydym yn adolygu'r holl system sgiliau sy'n cael ei harwain gan y galw yng Nghymru a rôl y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol o fewn hyn i gryfhau eu swyddogaeth fel cyrff strategol gan edrych ar y galw am sgiliau yn yr hirdymor ym mhob rhanbarth. Rydym yn croesawu canfyddiadau ymholiad y Pwyllgor i gyfrannu at hyn. Bydd hyn yn cynnwys eglurhad o'r berthynas rhwng y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Prif Swyddogion Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Consortia Addysg a strwythurau rhanbarthol eraill gan gynnwys Bargen /Twf Dinesig. Mae'r berthynas rhwng y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd mewn deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau sydd ar ddod, a chyflawnir deddfwriaeth sylfaenol erbyn mis Mawrth 2021, ac is-ddeddfwriaeth erbyn mis Mawrth 2023. Fel mae SQW wedi'i argymell, mae'n amserol ystyried yr angen i symud Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ffwrdd oddi wrth fanylion cyllido gweithredol at ddarparu persbectif sy'n cynnwys y system sgiliau ehangach yn ogystal ag anghenion sgiliau'r dyfodol y rheini sydd mewn cyflogaeth. Er mwyn gallu cyflawni hynny mae angen sefydlu cyfansoddiad ffurfiol Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn dilyn adolygiad Graystone, a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i weithredu hyn. Mae'r strwythurau llywodraethu yn dal i greu trafodaeth, yn enwedig mewn perthynas â strwythurau Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf, ac mae angen cytuno ar hyn ar draws pob lefel mewn Llywodraeth er mwyn sicrhau bod Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn gallu cyflawni eu rôl yn iawn ym mhob rhanbarth. Mae gwaith wedi dechrau ar y mater hwn a dyma fydd ein blaenoriaeth dros y misoedd nesaf.

`

Yn olaf, mae angen cynyddu’r adnoddau sydd ar gael i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn sylweddol os ydynt am gyflawni eu potensial fel cyrff strategol a chael agwedd holistaidd o’r system cyflogadwyedd a sgiliau yng Nghymru nawr ac i'r dyfodol. Dylid canolbwyntio’n benodol ar ddatblygu capasiti ac arbenigedd ymchwil a gwybodaeth am y farchnad lafur ym mhob rhanbarth ac ar rannu’r arfer orau, gan gynnwys ar draws ffiniau a’r tu hwnt, yn ogystal ag edrych ar y cyfleoedd am ddull gweithredu ar y cyd o ran gwybodaeth am y farchnad lafur ar draws rhanbarthau pan fo’n bosibl.

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU**
**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG**
**SESIWN DYSTIOLAETH AR WEFRU CERBYDAU TRYDAN YNG NGHYMRU**
**DYDD MERCHER 15 MAI 2019**

## Diben

**Pwrpas y papur hwn yw ymateb i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Seilwaith ar gyfer Gwefru Cerbydau Trydan**

## Ymateb

Rydym yn croesawu'r adroddiad drafft ac yn diolch i'r pwyllgor am ei waith.

Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel[1] yn dangos ein hymrwymiad i drosglwyddo i economi carbon isel yn unol â gofyniad Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i weld o leiaf 80% o ostyngiad o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru erbyn 2050. Mae'n disgrifio sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod Cymru yn trosglwyddo i deithio llesol a system trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel y gall pawb fanteisio arni ac sy'n cyfrannu at greu cymunedau cynaliadwy.

Mae'r cynllun yn cynnwys naw polisi a phedwar cynnig (i ddarparu syniadau i'w datblygu ymhellach) sy'n ymwneud â llwybr y sector trafnidiaeth, gan gynnwys polisïau i gynyddu cyfran y cerbydau trydan a cherbydau allyriadau isel iawn a ddefnyddir, uchelgais mentrus am fysiau a thacsis/cerbydau preifat di-garbon erbyn 2028 a chynigion i ddatgarboneiddio fflyd y sector preifat yng Nghymru. Ar ben hynny, mae hefyd yn cynnwys cynnig ym Mhennod y Sector Cyhoeddus y bydd allyriadau pob car newydd a cherbyd nwyddau ysgafn yn fflyd y sector preifat yn isel iawn erbyn 2025.

Mae Polisi 51 yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cynllunio ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan ac yn buddsoddi ynddo. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, y sector ynni a busnesau i gynllunio a chyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan. Ni ddylai diffyg seilwaith gwefru fod yn rhwystr rhag defnyddio cerbydau trydan yng Nghymru.

Disgwyliwn y bydd y byd busnes a diwydiant yn helpu i gyflwyno'r seilwaith gwefru. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod ninnau a Llywodraeth y DU yn ystyried y cyd-destun daearyddol ac economaidd gwahanol er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu manteisio ar gerbydau trydan.

Mae strategaeth The Road to Zero[2] yn nodi sut y bydd Llywodraeth y DU yn cefnogi'r gwaith o osod seilwaith gwefru ledled y DU, drwy fentrau megis Cronfa Buddsoddi mewn Seilwaith Gwefru gwerth £400 miliwn. Byddwn yn gweithio i annog sefydliadau yng Nghymru i fanteisio ar grantiau gan Lywodraeth y DU megis y Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan Gartref, y Cynllun Gwefru yn y Gweithle a'r Cynllun Mannau Gwefru Preswyl ar y Stryd sy'n cael eu cynnig gan y Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel (OLEV).

[1] https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/190321-prosperity-for-all-a-low-carbon-wales-cy.pdf
[2] https://www.gov.uk/government/publications/reducing-emissions-from-road-transport-road-to-zero-strategy

## Y gofyniad am seilwaith gwefru yng Nghymru a sut y mae darparu'r seilwaith hwnnw

Roedd ychydig dros 4,000 o gerbydau batri trydan a hybrid plygio i mewn wedi'u cofrestru yng Nghymru ar ddiwedd Chwarter 4 2018[3]. Mae hyn yn gynnydd o ryw 3,000 o gymharu â'r un cyfnod yn 2017. O'r 4,000 o gerbydau hynny, roedd 3,640 ohonynt yn geir, sef 0.23% o'r 1.56 miliwn o geir yng Nghymru. I gymharu, mae gan yr Alban 10,000 o geir trydan sy'n 0.34% o'r 2.9 miliwn o geir. Roedd 760 o gerbydau trydan ychwanegol wedi'u cofrestru yng Nghymru yn 2017 o gymharu â 2,435 yn yr Alban [4].

Bydd sawl ffactor yn dylanwadu ar nifer y cerbydau trydan a ddefnyddir, ond mae sicrhau bod man gwefru cyfleus ar gael yn sicr yn un o'r ffactorau hynny. Mae costau tanwydd a chynnal a chadw cerbydau trydan eisoes yn is na cherbydau petrol a diesel, sy'n beth da i'r rheini sy'n prynu fflydoedd o gerbydau. Mae'n debygol y bydd modd prynu cerbydau trydan newydd am bron a bod yr un pris a cheir petrol a diesel yn ystod hanner cyntaf y 2020au, yn enwedig gyda chymorth mentrau'r Llywodraeth. Bydd hyn yn trawsnewid y farchnad ar gyfer cerbydau trydan, fel sydd eisoes wedi digwydd yn Norwy.

Fel y nodwyd yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, byddwn yn nodi strategaeth ar gyfer seilwaith gwefru a fydd ar gael i'r cyhoedd i fodloni'r gofyniad y bydd 60% o'r ceir a'r faniau newydd a werthir erbyn 2030 yn gerbydau trydan.

## Datblygu strategaeth ar gyfer seilwaith gwefru Cymru

Nod y strategaeth fydd gweld ym mha gyd-destun y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymyrryd wrth ddarparu seilwaith gwefru cerbydau. Wrth ddatblygu strategaeth, bydd angen ymgynghori'n helaeth gydag awdurdodau lleol, y rheini sy'n ymwneud â darparu cyfleusterau gwefru a'r sector ynni.

Fel y cydnabuwyd yn adroddiad drafft y Pwyllgor, mae angen sicrhau bod cronfeydd cyhoeddus yn cael eu defnyddio pan fo tystiolaeth glir yn dangos bod y farchnad yn methu. Rydym wedi trafod gyda darparwyr gwefru a gwneud cyhoeddiadau diweddar yn y wasg sy'n arwydd bod y gwaith o ddarparu seilwaith gwefru yn fasnachol yn symud yn ei flaen. Ceir dadl bod y cam datblygu sy'n dibynnu'n helaeth ar gymhorthdal cyhoeddus bellach wedi dod i ben. Mae'r Alban wedi gweithredu'r cam hwn yn effeithiol drwy gyflwyno rhwydwaith ChargePlace Scotland. Dylid cyflwyno'r seilwaith yng nghyd-destun y datblygiadau hyn yn y dyfodol.

Mae cynllunio ar gyfer seilwaith gwefru yn gymhleth ac mae technoleg batri, sy'n dylanwadu ar ystod y cerbydau a'r gallu i wefru'n gyflymach yn datblygu'n gyflym. Mae ymddygiad a dewisiadau perchnogion cerbydau hefyd yn newid sy'n ffactorau

[3] https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/all-vehicles-veh01#ultra-low-emissions-vehicles
[4] https://www.transport.gov.scot/publication/scottish-transport-statistics-no-37-2018-edition/sct01193326941-16/

anodd i'w rhagweld. Bydd y strategaeth yn edrych ar dechnoleg bosibl ar gyfer y dyfodol, rhaglenni ariannu, y cyflenwad o fuddsoddiadau gan y sector preifat a'r sector cyhoeddus, a bydd yn cymhwyso'r rhain i'r amrywiaeth o ofynion a senarios gwefru a ganlyn.

- Rhwydwaith gwefru wrth deithio

Rydym yn cytuno â chasgliad y Pwyllgor bod angen mwy o seilwaith gwefru ar gerbydau trydan yng Nghymru, yn enwedig mannau gwefru cyflym oddi ar yr M4 a'r A55. Dyma ein blaenoriaeth gyntaf a byddwn yn defnyddio'r £2 filiwn a neilltuwyd fel rhan o gytundeb y gyllideb gyda Plaid Cymru i gyflwyno rhwydwaith gwefru cyflym. Er bod angen mynd i'r afael â'r pryder ynghylch cyrraedd pen y daith, rhagwelir mai dim ond pum neu chwe safle gwefru y bydd eu hangen. Mae'n debygol y byddant yn hybiau a fydd yn cynnig sawl gwefrydd a chyflymder gwefru amrywiol ar gyfer sawl math o gerbyd.

- Gwefru gartref

Y dull mwyaf cyfleus a chost effeithlon o wefru yw sicrhau bod perchnogion cerbydau trydan yn gallu gwefru gartref. Mae gan 67% o anheddau yng Nghymru fannau parcio oddi ar y ffordd[5] a gallent ddefnyddio'r dull hwn i wefru dros nos. Mae darparu mannau gwefru gartref yn cael ei gefnogi gan grantiau OLEV. Mae grant OLEV bellach yn ei gwneud yn orfodol i ddefnyddio gwefrydd clyfar sy'n gallu sicrhau cydbwysedd rhwng adegau pan fo'r galw am ynni ar ei uchaf ac ar ei isaf. Rydym yn cydnabod y potensial o wefru gartref i godi ymwybyddiaeth ac i gynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy.

- Gwefru yn y gweithle

Gallai gwefru yn y gweithle fod yn ddewis cyfleus i'r rheini nad ydynt yn gallu gwefru gartref. Byddwn yn hyrwyddo grant Cynllun Gwefru yn y Gweithle OLEV. Dylid hefyd edrych ar y posibilrwydd o ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'r cyfleusterau hyn pan nad ydynt yn cael eu defnyddio gan weithwyr fel ffrwd refeniw bosibl.

- Gwefru mewn cyrchfannau/mannau parcio

Rydym yn cydnabod bod mannau gwefru mewn meysydd parcio, amwynderau hamdden a siopa etc yn ddefnyddiol i'r rheini nad oes ganddynt gyfleusterau parcio oddi ar y ffordd gartref yn ogystal â'r rheini sydd am achub ar gyfle i wefru eu batris ychydig yn fwy. Mae busnesau bellach yn gweld y potensial i ddenu cwsmeriaid drwy osod cyfleusterau gwefru wrth ymyl eu heiddo.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys polisi i annog mwy o bobl i ddefnyddio cerbydau trydan. Mae'n ofynnol bod mannau gwefru ar gael mewn isafswm o 10% o feysydd parcio nad ydynt yn rhai preswyl. Gan weithio gyda Trafnidiaeth Cymru, byddwn yn asesu'r potensial o wefru mewn llawer o 250 o orsafoedd trenau Cymru.

[5] Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18, Llywodraeth Cymru

Byddwn hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i weld pa safleoedd eraill yn y sector cyhoeddus y gallwn ddarparu mannau gwefru. Bydd llawer ohonynt yn apelio i ddarparwyr mannau gwefru.

Mae gan OLEV Gynllun Grant ar gyfer Mannau Gwefru Preswyl ar y Stryd i helpu awdurdodau lleol i osod seilwaith ar gyfer gwefru cerbydau ar y stryd. Bu Caerdydd yn llwyddiannus o ran cael cyllid am gynllun o'r fath ac rydym yn gobeithio dysgu gwersi ohono.

- Gwefru bysiau, tacsis a cherbydau hurio preifat

Byddwn yn asesu'r gofyniad am gyfleusterau gwefru cyflym i hwyluso'r broses o drosglwyddo i fflyd tacsis/cerbydau hurio preifat glanach gan ddysgu o brofiadau o fannau eraill megis Llundain. Rydym hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o leoli cyfleusterau gwefru sydd eu hangen ar fysiau yn yr un lle â chanolfannau gwefru at ddibenion eraill megis ceir preifat.

- Gwefru fflydoedd

Byddwn yn edrych ar gynghori fflydoedd ar y gofynion gwefru a chydgysylltu arferion fel rhan o'n hymrwymiad i hyrwyddo'r broses o ddatgarboneiddio fflydoedd y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel y nodwyd yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel.

**Capasiti'r grid**

Rydym yn cytuno a chasgliad y Pwyllgor bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r Grid Cenedlaethol a Gweithredwyr Rhwydweithiau Rhanbarthol i sicrhau bod y grid yn gallu darparu ar gyfer gwefru cerbydau yng Nghymru.

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar strategaethau ynni lleol, a chyda gweithredwyr rhwydweithiau, Rhwydweithiau Ynni Scottish Power ac Western Power Distribution ar eu cynlluniau peilot arloesol. Mae CHARGE yn brosiect £8.5 miliwn gan Rwydweithiau Ynni Scottish Power a fydd yn gwella dealltwriaeth am ofynion y rhwydwaith i wefru cerbydau, gan ddefnyddio ardal SP Manweb fel astudiaeth achos i brofi sut y mae cyflwyno seilwaith gwefru.

Mae hefyd yn hanfodol bod ynni adnewyddadwy yn ateb y galw cynyddol am drydan yn y maes trafnidiaeth er mwyn sicrhau canlyniadau o ran datgarboneiddio. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddefnyddio cymaint â phosibl o ynni a gynhyrchir yn lleol i fodloni'r galw cynyddol am bŵer yng Nghymru.